

Darllen stori i blant a rhesymeg ac adfyfyriad.

CYNLLUN GWERS:

Enw'r Hyfforddai:			Dyddiad:		Dosbarth:		Cynllun ffocws y cyfnod sylfaen.
Targed(au) Hyfforddi Personol	S.1 S.2 S.3.2	Nifer y dysgwyr:	12	Oed:	3-5 blwydd oed		
Nodau/ bwriadau dysgu:	Darllen stori i dosbarth meithrin a derbyn.	Meini Prawf llwyddiant:	- Fod y ddisgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaeth dosbarth. - Yn trochi iaith ac dysgu geiriau heriol. - Yn gallu ateb cwestiynau am y stori.		Ateb anghenion y dysgwyr:	Dim ddisgyblion gyda anghenion y dysgwyr.	
Tasgau cyflwyniad/ diweddgol:		Prif weithgareddau:			Adnoddau/ Geirfa allweddol:		Asesu ar gyfer Dysgu (cyfleoedd 'r strategaethau a defnyddiwyd).
Cyflwyniad: - Gwneud llythrennau tric a chlic. - Gofyn wrth y ddisgyblion a oes unrhywun wedi clywed y stori yn barod. - Gofyn wrth y ddisgyblion beth maent yn credu fod y stori amdano. - Gofyn wrth y ddisgyblion i edrych ar y clawr a ddisgrifio beth maent yn gweld.		- Darllen y stori gan gofyn cwestiynau am beth gall digwydd nesaf neu Pa anifail sydd yn gwneud y swm yna. - Byddaf yn addasu iaith y llyfr o flaen llaw er mwyn sicrhau fod pawb yn medru deall y stori.			anifail swm iar ci cath mochyn dafad		Byddaf yn gofyn cwestiwnau i yn ystod ac ar ol darllen y stori er mwyn asesu dealltwriaeth y ddisgyblion o'r stori.
Diweddgllo: - Gofyn wrth y ddisgyblion a wnaethon mwynhau y stori. - Gofyn wrth y ddigyblion i ailadrodd beth digwyddodd yn y stori.							

Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod o sgiliau): gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol clywed a gwahaniaethu rhwng synau cyffredinol, synau llafar a synau yr amgylchedd v gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau ateb cwestiynau syml 'Pwy?', 'Beth?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau v gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud			
Llythrennedd (FfLIRh) Bydd y ddisgyblion yn gorfod defnyddio sgiliau gwrando er mwyn ateb cwestiynau ac cymryd rhan mewn trafodaeth llafar yn seiliedig ar y stori.		Rhifedd (FfLIRh)	
FfCD	Meddwl defnyddio sgiliau meddwl ac dadansoddi er mwyn gallu ateb cwestiynau ac cynnig rhagdybiad yn ystod trafodaeth dosbarth.	ADCDF	YCC Stori cymraeg ac yn hybu yr iaith cymraeg.

LINK I FIDEO

<https://youtu.be/eY-agQSyPFE>

Mae'n bwysig iawn i ddarllen gyda phlant yn enwedig i blant ifanc oherwydd mae'n ei rhoi cyfle i ddatblygu ei sgiliau iaith a hefyd i ddysgu geirfa newydd. 'Reading to children at age 4-5 every day has a significant positive effect on their reading skills and cognitive skills (i.e., language and literacy, numeracy and cognition) later in life.' (Prifysgol Melbourne, 2013).

Roedd llawer o bethau roedd angen i mi ystyried wrth ddewis y llyfr. Dewisais y stori yma oherwydd ei fod yn stori gydag iaith syml ac addas ar gyfer y disgyblion. Oherwydd byddaf yn darllen stori i blant ifanc gyda dealltwriaeth gyfyngedig o'r iaith Cymraeg, a rhai o'r disgyblion heb lawer o sgiliau iaith o gwbl (Cymraeg neu Saesneg). Roedd yn bwysig wrth ddewis y llyfr fod y disgyblion i gyd yn gallu deall a mwynhau'r stori, ond hefyd roedd angen i'r iaith fod digon heriol er mwyn trochi iaith y disgyblion a datblygu eu geirfa. 'A

good rule of thumb is that the text chosen should be between 12 and 18 months beyond the reach of your higher attaining readers; that is to say, beyond the reach of their independent reading of it and comprehending of it.' (Crosby, 2018).

Yn ogystal â hwn wrth ddewis stori a oedd yn apelio at ddiddordebau'r disgyblion a chlymu i'w profiadau personol o'r byd go iawn, mae hwn yn sicrhau bydd y disgyblion yn mwynhau ac yn cymryd diddordeb yn y llyfr. Oherwydd roedd yr ysgol yn ardal wledig iawn roedd llawer o'r disgyblion yn byw ar neu yn agos i fferm ac felly penderfynais fod stori gyda thema fferm ac anifeiliaid fferm yn addas iawn ar gyfer y grŵp yma. Mae'r thema yma hefyd yn agor ian cyfleoedd at ddysgu pellach ynglŷn â synau anifeiliaid a pa anifeiliaid sy'n byw ar fferm.

Tra fy mod yn cynllunio'r gweithgaredd roedd yn bwysig i mi allu cysylltu'r gweithgaredd gyda'r cwricwlwm cenedlaethol. *'Drwy ddod i gysylltiad â llenyddiaeth, mae dealltwriaeth plant a phobl ifanc o bŵer iaith yn cael ei hymestyn. Gall symbylu'r dychymyg, herio syniadau a chyflwyno syniadau newydd. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn gallu creu cariad at ddarllen a fydd yn cyfoethogi bywydau ac yn cyfrannu at les yn awr ac yn y dyfodol.'* (Donaldson, 2015). Mae'n bwysig i gysylltu â'r cwricwlwm oherwydd mae'n sicrhau fod unrhyw weithgareddau yn gallu gweithio tuag at ddatblygu ac ymarfer sgiliau sydd yn cael ei nodi yn y cwricwlwm cenedlaethol. *'gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol'* (Llywodraeth Cymru, 2015). Bydd disgwyl i'r disgyblion eistedd yn dawel a gwrando ar y stori, Yn ogystal â hyn bydd rhaid i'r disgyblion ymateb i'r stori trwy ateb cwestiynau a chynnig syniadau ar beth sy'n digwydd nesaf.

'clywed a gwahaniaethu rhwng synau cyffredinol, synau llafar a synau'r amgylchedd' (Llywodraeth Cymru, 2015). Bydd angen i'r disgyblion gwahaniaethu rhwng synau anifeiliaid er mwyn ceisio dyfalu pa anifail oedd yn gwneud pa sŵn. *'ateb cwestiynau syml 'Pwy?', 'Beth?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau'* (Llywodraeth Cymru, 2015). Bydd disgwyl i'r disgyblion dala i'r cof prif nodweddion y stori oherwydd fydd disgwyl iddynt gyfrannu at drafodaeth dosbarth ac ateb cwestiynau, am beth ddigwyddodd a beth maent yn credu bydd yn digwydd nesaf, ar ddiwedd ac yn ystod darllen y llyfr.

Teimlaf fod y dasg wedi mynd yn dda oherwydd roedd y plant un edrych fel petai wedi mwynhau ac wedi cymryd diddordeb yn y stori. Roedd yn bwysig iawn oherwydd roedd

angen i'r disgyblion canolbwyntio er mwyn gallu ymateb a chymryd rhan. Yn ogystal â hyn teimlaf fy mod wedi addasu'r iaith yn effeithiol iawn hefyd. Roedd yn bwysig iawn fy mod yn addasu iaith y llyfr oherwydd roedd yn bwysig sicrhau fod pob disgybl yn medru deall cynnwys y llyfr er mwyn gallu cymryd rhan yn y drafodaeth ac felly yn sicrhau fod y disgyblion yn medru defnyddio sgiliau llafar a thrafod.

Ond yn ogystal â hyn roedd yn bwysig i gadw rhai geiriau heriol er mwyn i'r disgyblion cael profiad o eiriau newydd a throchi iaith y disgyblion. Ond wrth wneud hwn roedd thaid i mi adael amser i stopio a chymryd yr amser i esbonio'r geiriau i'r disgyblion. Mae hwn hefyd yn gyfle da ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Roedd yn gyfle i mi allu asesu dealltwriaeth y disgyblion trwy holi'r disgyblion am beth oeddent yn credu oedd ystyr y gair yna.

Cefais sawl cyfle ar gyfer asesu ar gyfer dysgu yn ystod darllen y stori. Roeddwn yn ceisio gofyn cwestiynau yn ystod ac ar ddiwedd y stori. Mae'n bwysig iawn i ofyn amrywiaeth o gwestiynau er mwyn gallu cynnal trafodaeth gyda'r disgyblion. Mae hwn yn rhoi cyfle i mi allu asesu dealltwriaeth y disgyblion oherwydd fy mod yn gofyn iddynt i roi syniadau ar beth gall digwydd nesaf neu beth oedd yn gwneud y sŵn yna? Mae hwn yn rhoi cyfle i'r disgyblion fod yn greadigol trwy geisio meddwl am ddiwedd i'r stori mae hon hefyd yn tynnu ar brofiadau a gwybodaeth flaenorol y disgyblion trwyddyn nhw yn galw i gof pa anifail sydd yn gwneud pa sŵn.

Un o'r problemau cefais yn ystod y gweithgaredd roedd fod yr Ipad oedd yn fy ffilmio yn cadw tynnu sylw'r disgyblion tra fy mod yn darllen y stori. Er hyn nad oes llawer gallaf wneud am hyn os byddaf yn gwneud rhywbeth tebyg yn y dyfodol.

Erbyn y tro nesaf byddaf yn ceisio canolbwyntio yn fwy ar y clawr a'r lluniau yn y llyfr. Mae'r lluniau yn y llyfr yn adnodd defnyddiol iawn er mwyn ceisio cael y disgyblion i feddwl fwy a chymryd rhan yn stori yn hytrach na gwrando yn unig. Gallaf ddefnyddio'r lluniau yn y llyfr fel cyfle ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Gallaf ofyn i'r disgyblion i ddisgrifio'r lluniau a gofyn iddynt i ddyfalu beth mae'r llyfr amdano trwy ddefnyddio'r clawr. Gall hwn hefyd arwain at gyfle dysgu pellach trwy ofyn iddynt i ddylunio llun wedi ei seilio ar y llyfr. Hefyd nyddaf yn gwneud fwy o gyflwyniad i'r llyfr a chymryd yr amser i esbonio beth mae'r llyfr amdano a pam rwyf yn darllen y llyfr gallaf ddefnyddio hwn fel

cyfle i ofyn cwestiynau wrth y disgyblion am beth maent yn credu sydd yn mynd i ddigwydd yn y llyfr.

Byddaf hefyd yn ceisio amrywio fy llais fwy wrth ddarllen y llyfr a cheisio defnyddio rhai ystymau gall hwn fod yn ffordd dda o gael y disgyblion i gymryd rhan trwy wneud moshwms. Gallaf ofyn i'r disgyblion i ddod lan ar gystymau yn debyg i ffyrdd Pie Corbett. *'Talk for Writing, developed by Pie Corbett supported by Julia Strong and the Talk for Writing team, is powerful because it is based on the principles of how people learn. The movement from imitation to innovation to independent application can be adapted to suit the needs of learners of any stage.'* (Corbett, 2019). Fydd hwn yn helpi'r disgyblion i adrodd y stori os byddaf yn darllen yr eto ac yn ceisio cael y disgyblion i ddarllen ar y cyd. Yn olaf byddaf hefyd yn ceisio gwyllo'r disgyblion fwy wrth ddarllen y stori er mwyn gallu rheoli'r grŵp yn fwy oherwydd byddaf yn gallu newid llyf y wers dra fy mod yn darllen y stori er mwyn cadw diddordeb y disgyblion.

Cyfeirnod

- Donaldson, G (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, Caerdydd
- Llywodraeth Cymru (2015) 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen' Hawlfraint y Goron, Caerdydd.
- Prifysgol Melbourne (2013) 'Reading to Young Children: A Head-Start in Life' State Government Victoria, Melbourne.
- Writing, T. (2019). *What is Talk for Writing? - Talk for Writing*. [online] Talk for Writing. Available at: <https://www.talk4writing.co.uk/about/> [Accessed 8 May 2019].
- Tes. (2019). *'Why whole-class reading beats a carousel – and seven ways to ensure it is successful'*. [online] Available at: <https://www.tes.com/news/why-whole-class-reading-beats-carousel-and-seven-ways-ensure-it-successful> [Accessed 8 May 2019].